Huw Jones
Cadeirydd, Awdurdod S4C
Parc Tŷ Glas
Llanisien, Caerdydd
CF14 5DU

19 Hydref 2016

Annwyl Mr Jones

Diolch i chi ac Ian Jones am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 6 Hydref ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.

Mae'r Pwyllgor wedi trafod eich tystiolaeth ac wedi gofyn i mi ysgrifennu atoch i fynd ar drywydd dau fater yn arbennig.

Yn gyntaf, roedd y y Pwyllgor yn nodi o'ch tystiolaeth chi a thystiolaeth Rhodri Talfan Davies, a roddodd dystiolaeth yn ddiweddarach yn y dydd, bod llawer o waith creadigol a chydweithredol yn digwydd ar y cyd rhwng S4C a'r BBC yn sgil dechrau ariannu S4C drwy ffi'r drwydded.

Yn y cyfarfod, awgrymwyd na fyddai'n briodol i gynrychiolydd o fwrdd unedol y BBC eistedd ar awdurdod S4C. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd yr ethos cryf o gydweithredu y disgrifioch chi, Ian Jones a Rhodri Talfan Davies yn parhau ni waeth beth fydd y berthynas sefydliadol ffurfiol rhyngoch chi a'r BBC. Byddwn yn ddiolchgar o gael sicrwydd gennych eich bod yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r dull gweithredu hwn, ni waeth pa bynnag newidiadau a fydd yn deillio o'r Siarter newydd a'r adolygiad, ac na fyddwch yn dychwelyd i'r berthynas cleient-partner a oedd yn bodoli o'r blaen.

Mae'r ail fater yn ymwneud ag atebolrwydd S4C i'r Cynulliad Cenedlaethol. Wrth gwrs, roeddem yn falch iawn eich bod yn barod i ymddangos ger ein bron ac rydym yn nodi eich parodrwydd i ateb ein cwestiynau. Fodd bynnag, roedd aelodau'r Pwyllgor yn gadarn o'r farn, er nad ydym yn gyfrifol ar hyn o bryd am gyllid S4C, ac am ddarlledu yn gyffredinol, bod angen i S4C fod yn atebol yn ffurfiol mewn rhyw ffordd i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Heb os, bydd y mater hwn yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad. Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallai Awdurdod S4C gadarnhau ei fod yn cytuno â'r awgrym y dylai S4C dylai fod yn atebol yn ffurfiol i'r Cynulliad Cenedlaethol am ei weithgareddau ac y dylai, er enghraifft, fod yn ddarostyngedig

i'r gofyniad i osod adroddiadau blynyddol a chyfrifon gerbron y Cynulliad, ac i bwyllgorau'r Cynulliad graffu arnynt, yn yr un ffordd ag sy'n digwydd i'r BBC erbyn hyn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn er gwybodaeth at Rhodri Talfan Davies ac Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes.

Yn gywir

Bethan Jenkins

Bethan Jenkins AC

Cadeirydd